

Enghraifft 'Arfer Gorau': Dadansoddi Gwraidd y Broblem (RCA)

Senario: Mae U N Arall a'i Gwmni yn cynhyrchu amrywiaeth o gynhyrchion wedi'u pobi i'w gwerthu mewn sawl masnachfaint siopau cyfleus ar draws y wlad.

Dylai gweithredwr fod wedi pwyso swm o gnau coco wedi'u torri i gynhyrchu eu Cacenni Sbwj Cnau Coco, ond mewn camgymeriad fe ddefnyddiodd gnau almon wedi'u torri yn y gymysgedd yn lle hynny. Gan fod cnau almon yn alergen gan nad oedd wedi'i gynnwys yng nghynhwysion y cacenni, arweiniodd hyn at swp o'r cacenni anniogel yn cael ei roi ar y farchnad.

Nodwyd risg bosibl i iechyd defnyddwyr ag alergedd neu anoddefiad i gnau almon a chnau eraill ac fe alwodd U N Arall a'i Gwmni y cynnyrch yn ôl. Hefyd, cysylltodd y busnes â sefydliadau perthnasol sy'n cefnogi pobl ag alergedd (sy'n rhoi gwybod i'w haelodau am y ffaith bod y cynnyrch wedi'i alw'n ôl) a chyhoeddodd hysbysiad pwynt gwerthu i'w gwsmeriaid. Roedd yr hysbysiadau hyn yn egluro pam oedd swp o Gacenni Sbwj Cnau Coco yn cael ei alw'n ôl a beth i'w wneud os oedd y cynnyrch wedi'i brynu.

Cynhaliodd U N Arall a'i Gwmni ddadansoddiad gwraidd y broblem (RCA) i sefydlu achos(ion) cychwynnol y digwyddiad bwyd a nodi camau y gallent eu cymryd i sicrhau nad oedd y mater yn digwydd eto yn y dyfodol.

Mae'r canlynol yn crynhoi'r arfer RCA a ddilynwyd:

PAM wnaeth y gweithredwr y gwall?

Roedd y gweithredwr yn anghyfarwydd â'r weithdrefn gynhyrchu gyflawn

PAM oedd y gweithredwr yn anghyfarwydd â'r weithdrefn?

Cafodd y gweithredwr ei hyfforddi, ond ni chafodd ei oruchwylio na'i gymeradwyo er mwyn pennu a oedd yr hyfforddiant a gafodd yn ddigonol.

PAM nad oedd yr hyfforddiant a ddarparwyd yn ddigonol?

Ni chadarnhawyd/cymeradwywyd bod y gweithredwr yn deall y broses neu oblygiadau peidio â glynu at y weithdrefn sefydledig.

PAM wnaeth hyn arwain at ddefnydd anghywir o gnau almon yn hytrach na chnau coco yn y cynnyrch?

Nid oedd y gweithredwr yn gallu gwahaniaethu rhwng y cnau coco a'r cnau almon, gan fod y ddau gynhwysyn wedi'u torri, yn edrych yn union yr un fath ac nid oeddent wedi'u labelu.

PAM nad oedd y gwahanol gynhwysion wedi'u labelu?

Cafodd labeli eu tynnu y tro diwethaf i'r cynwysyddion gael eu glanhau ac ni chawsant eu gosod yn ôl.

PAM na chafodd y labeli cynhwysion eu gosod yn ôl ar ôl eu tynnu?

Nid oedd y staff glanhau yn ystyried y gallai rhywbeth fynd o'i le ac ni chafodd labeli wedi'u difrodi/coll eu gwirio gan nad yw hyn yn rhan o ddyletswyddau unrhyw un.

Gwraidd y Broblem

Nid oedd y gweithredwr yn deall y gweithdrefnau cywir ac ni chafodd effeithiolrwydd yr hyfforddiant a ddarparwyd i staff newydd ei asesu.

Ni chafodd gweithdrefn i sicrhau labelu cywir sy'n hawdd ei adnabod o wahanol gynhwysion ei sefydlu ac ni nodwyd y ffaith bod y cynhwysyn anghywir wedi'i ddefnyddio yn ystod y broses weithgynhyrchu.

Camau Unioni

- Ailgynllunio hyfforddiant – defnyddio cwestiynau'r daflen waith, pwysleisio'r gweithdrefnau cywir a chynnwys ymwybyddiaeth o alergeddau.
- Personél cymwys (e.e. rheolwr llinell neu reolwr cynhyrchu) i asesu dealltwriaeth y rhai sy'n cael eu hyfforddi a chofnodi dogfen wedi'i chydlofnodi.
- Cynnwys enghreifftiau o daflen waith wedi'i llenwi a'i hanodi'n gywir mewn cyfarwyddiadau gwaith (y bydd copïau ohoni ar gael mewn ardaloedd cynhyrchu).
- Darparu taflenni sydd â gwybodaeth am alergeddau i'r holl staff ac ymwelwyr.

- Ail-ddylunio'r ardal storio i sicrhau bod cynhwysion yn cael eu cadw mewn lleoliadau pwrpasol.
- Os yw'n ymarferol, defnyddio labeli cynhwysion nad oes modd eu tynnu.
- Diweddarau'r weithdrefn: croeswiro gwybodaeth wrth ddechrau cymysgu cynhwysion (gwirio bod y daflen gymysgu, y deunyddiau, labeli'r pecynnau yn cyd-fynd â'r stoc ffisegol) a chyflwyno cam cymeradwyo/goruchwylio.

- Cynnwys cam gwirio labeli wrth wirio'r llinell gynhyrchu ar ôl ei glanhau.
- Sicrhau bod staff glanhau wedi'u hyfforddi ac yn deall yn llawn yr angen i ddychwelyd offer wedi'i labelu mewn cyflwr cwbl weithredol.
- Sicrhau bod unigolyn (e.e. rheolwr cynhyrchu) wedi'i awdurdodi ac yn gyfrifol am gymeradwyo'r llinell gynhyrchu ar ôl ei glanhau.